



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 1701 (Cy.163)

2006 No. 1701 (W.163)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**PLANT HEALTH,
WALES**

**Gorchymyn Iechyd Planhigion
(Tystysgrifau Allforio) (Cymru)
2006**

**The Plant Health (Export
Certification) (Wales) Order
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 30 Mehefin 2006. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i ddyroddi tystysgrifau ffytoiechydol a thystysgrifau ffytoiechydol ailanfôn ar gyfer allforio planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i drydydd gwledydd i fodloni gofynion rheoliadau ffytoiechydol y gwledydd hynny.

This Order applies in relation to Wales, comes into force on 30 June 2006. The Order makes provision for the issue of phytosanitary certificates and reforwarding phytosanitary certificates for export of plants, plant products or other objects to third countries to satisfy the requirements of those countries' phytosanitary regulations.

Mae erthygl 3 yn darparu ar gyfer gwneud ceisiadau am ddyroddi tystysgrifau ffytoiechydol a thystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio.

Article 3 provides for the making of applications for and the issue of phytosanitary certificates and phytosanitary certificates for re-export.

Mae erthygl 4 yn darparu ar gyfer gwneud ceisiadau am wasanaethau cyn-allforio a chyflawni'r gwasanaethau hynny gan swyddogion awdurdodedig.

Article 4 provides for the making of applications for pre-export services and the carrying out of such services by authorised officers.

Mae erthygl 5 ac Atodlenni 3 a 4 yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr tystysgrifau ffytoiechydol, tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio a thalu ffioedd am wasanaethau cyn-allforio.

Article 5 and Schedules 3 and 4 prescribe the fees payable by applicants for phytosanitary certificates, phytosanitary certificates for re-export and payment of fees for pre-export services.

Mae erthygl 6 yn darparu ei bod yn dramgwydd i wneud datganiad anwir gan wybod hynny neu gan fod yn ddi-hid o hynny neu yn fwiadol i fethu â datgelu gwybodaeth berthnasol er mwyn peri bod tystysgrif yn cael ei dyroddi.

Article 6 provides that it is an offence knowingly or recklessly to make a false statement or to intentionally fail to disclose material information for the purpose of obtaining the issue of a certificate.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi cael ei baratoi o ran Gorchymyn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Adran dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A Regulatory Appraisal has been prepared in respect of this Order. Copies can be obtained from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2006 Rhif 1701 (Cy.163)**2006 No. 1701 (W.163)****IECHYD PLANHIGION,
CYMRU****PLANT HEALTH,
WALES****Gorchymyn Iechyd Planhigion
(Tystysgrifau Allforio) (Cymru)
2006****The Plant Health (Export
Certification) (Wales) Order
2006**

Wedi'i wneud 27 Mehefin 2006
Yn dod i rym 30 Mehefin 2006

Made 27 June 2006
Coming into force 30 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 3(1), (4) a 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(1), gyda chydsyniad y Trysorlys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 3(1), (4) and 4A of the Plant Health Act 1967(1), with the consent of the Treasury, hereby makes the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwys**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2006.

1.-(1) The title of this Order is the Plant Health (Export Certification) (Wales) Order 2006 and this Order comes into force on 30 June 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

2.-(1) In this Order-

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means-

ystyr "gwasanaeth cyn-allforio" ("*pre-export service*") yw unrhyw arolygiad neu archwiliad iechyd planhigion, gan gynnwys cymryd samplau,

(a) a person authorised by the National Assembly to be an inspector for the purposes of this Order or the Plant Health (Wales) Order 2006(2) or

(1) 1967 p. 8; diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) a (2) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8; amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48). O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(1) 1967 c. 8; sections 2(1) and 3(1) and (2) were amended by the European Communities Act 1972 (c. 68), section 4(1) and Schedule 4, paragraph 8; section 3(4) was substituted by section 42 of the Criminal Justice Act 1982 (c. 48). Under the Transfer of Functions (Wales) (No.1) Order 1978 (S.I. 1978/272), article 2(1) and Schedule 1, the functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food under the Plant Health Act 1967 were, so far as they are exercisable in relation to Wales, transferred to the Secretary of State; and under the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, the functions transferred to the Secretary of State by the 1978 Order were transferred to the National Assembly for Wales.

(2) S.I. [].

y mae'n ofynnol eu cyflawni er mwyn bodloni gofynion ffytoiechydol trydedd wlad, heblaw unrhyw wasanaeth o'r fath sy'n ofynnol ar gyfer dyroddi tystysgrif o dan y Gorchymyn hwn;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw-

- (a) person a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn arolygydd at ddibenion y Gorchymyn hwn neu Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(1) neu
- (b) unrhyw swyddog arall o'r Cynulliad Cenedlaethol;

mae i "trydedd wlad" yr un ystyr yn Gorchymyn hwn ag sydd i "*third country*" yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993(2);

ystyr "tystysgrif" ("*certificate*"), o ran cais a gaiff ei wneud yn unol â'r Gorchymyn hwn, yw naill ai tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio, yn ôl y digwydd;

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol" ("*phytosanitary certificate*") yw tystysgrif a gafodd ei chwblhau'n briodol yn y ffurf a bennir yn Atodlen 1 neu mewn ffurf debyg arall y gellir cytuno arni rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r drydedd wlad y bwriedir i'r dystysgrif fodloni ei gofynion ffytoiechydol; ac

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio" ("*phytosanitary certificate for re-export*") yw tystysgrif a gafodd ei chwblhau'n briodol yn y ffurf a bennir yn Atodlen 2 neu mewn ffurf debyg arall y gellir cytuno arni rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r drydedd wlad y bwriedir i'r dystysgrif fodloni ei gofynion ffytoiechydol.

(2) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw dystysgrif neu wasanaeth a ddarperir gan neu ar ran y Comisiynwyr Coedwigaeth.

Tystysgrifau ar gyfer allforio planhigion etc. i drydydd gwledydd

3.-(1) Caiiff person sy'n bwriadu allforio planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i drydedd wlad wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am dystysgrif o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael cais a wnaed o dan baragraff (1), rhaid i swyddog awdurdodedig:-

- (a) cyflawni unrhyw rai o'r gwasanaethau a restrir yng ngholofn gyntaf Atodlen 3 y mae o'r farn eu bod yn caniatáu iddo ddyroddi'r dystysgrif; a
- (b) os yw wedi'i fodloni y dylid dyroddi tystysgrif, dyroddi'r dystysgrif ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) any other officer of the National Assembly;

"certificate" ("*tystysgrif*"), in relation to an application made pursuant to this Order, means either a phytosanitary certificate or a phytosanitary certificate for re-export, as the case may be;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"phytosanitary certificate" ("*tystysgrif ffytoiechydol*") means a certificate duly completed in the form set out in Schedule 1 or in such other similar form as may be agreed between the National Assembly and the third country whose phytosanitary requirements the certificate is intended to meet;

"phytosanitary certificate for re-export" ("*tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio*") means a certificate duly completed in the form set out in Schedule 2 or in such other similar form as may be agreed between the National Assembly and the third country whose phytosanitary requirements the certificate is intended to meet;

"pre-export service" ("*gwasanaeth cyn-allforio*") means any plant health inspection or examination, including by the taking of samples, which is required to be carried out in order to satisfy the phytosanitary requirements of a third country, other than any such service required for the issue of a certificate under this Order; and

"third country" ("*trydedd wlad*") has the same meaning in this Order as in the Plant Health (Great Britain) Order 1993(1).

(2) This Order does not apply in respect of any certificate or service provided by or on behalf of the Forestry Commissioners.

Certificates for export of plants etc. to third countries

3.-(1) A person who intends exporting plants, plant products or other objects to a third country may apply to the National Assembly for a certificate under this Order.

(2) Where the National Assembly has received an application made under paragraph (1), an authorised officer must-

- (a) carry out any of the services listed in the first column of Schedule 3 which he or she considers necessary to allow him or her to issue the certificate; and
- (b) if he or she is satisfied that a certificate should be issued, issue the certificate on behalf of the National Assembly.

(1) O.S. [].

(2) O.S. 1993/1320.

(1) S.I. 1993/1320.

(3) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdodi unrhyw berson yn ysgrifenedig i arolygu gronynnau pan fo arolygiad o'r fath yn ofynnol i alluogi'r swyddog hwnnw i ddyroddi'r dystysgrif.

Gwasanaethau cyn-allforio

4.-(1) Caiff person sy'n bwriadu allforio planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i drydedd wlad neu drydydd gwledydd wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am wasanaeth cyn-allforio o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael cais a wnaed o dan baragraff (1), rhaid i swyddog awdurdodedig-

- (a) cyflawni unrhyw rai o'r gwasanaethau cyn-allforio y mae'r swyddog awdurdodedig o'r farn eu bod yn angenrheidiol i benderfynu a gafodd gofynion mewnforio'r wlad neu'r gwledydd ar gyfer allforio a bennir yn y cais eu bodloni; a
- (b) rhoi i'r ceisydd ganlyniadau unrhyw arolygiad neu archwiliad a gynhaliwyd.

Ffioedd am ddyroddi tystysgrifau a darparu gwasanaethau

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid talu i'r Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) o ran y gwasanaethau y cyfeirir atynt yng ngholofn gyntaf Atodlen 3, y ffi a bennir gyferbyn yn ail golofn yr Atodlen honno; a
- (b) o ran gwasanaeth cyn-allforio, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 4.

(2) Rhaid i allforiwr bach dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) o ran y gwasanaethau y cyfeirir atynt yng ngholofn gyntaf Atodlen 3 naill ai-
 - (i) y ffi a bennir gyferbyn yn nhrydedd golofn Atodlen 3; neu
 - (ii) os yw cyfanswm y ffioedd o ran unrhyw wasanaethau o dan y Gorchymyn hwn y daeth yn atebol amdanynt yn ystod y flwyddyn ariannol pan wneir y cais ganddo yn fwy na £250, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 3; a
- (b) o ran gwasanaeth cyn-allforio naill ai-
 - (i) y ffi a bennir yn nhrydedd golofn Atodlen 4; neu
 - (ii) os yw cyfanswm y ffioedd o ran unrhyw wasanaethau o dan Gorchymyn hwn y daeth yn atebol amdanynt yn ystod y flwyddyn ariannol pan wneir y cais ganddo yn fwy na £250, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 4.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "allforiwr bach" ("*small*

(3) An authorised officer may authorise any person in writing to inspect grain where such inspection is required to enable that officer to issue the certificate.

Pre-export services

4.-(1) A person who intends exporting plants, plant products or other objects to one or more third countries may apply to the National Assembly for a pre-export service under this Order.

(2) Where the National Assembly has received an application made under paragraph (1), an authorised officer must-

- (a) carry out any pre-export service which the authorised officer considers necessary to determine whether the import requirements of the country or countries of export specified in the application are met; and
- (b) provide the applicant with the results of any inspection or examination carried out.

Charges for the issue of certificates and the provisions of services

5.-(1) Subject to paragraph (2), there is to be paid to the National Assembly-

- (a) in respect of the services referred to in the first column of Schedule 3, the fee set out opposite in the second column of that Schedule; and
- (b) in respect of a pre-export service, the fee set out in the second column of Schedule 4.

(2) A small exporter must pay to the National Assembly-

- (a) in respect of the services referred to in the first column of Schedule 3 either-
 - (i) the fee set out opposite in the third column of Schedule 3; or
 - (ii) if the sum total of fees in respect of any services under this Order for which he or she has become liable during the financial year in which his or her application is made exceeds £250, the fee set out in the second column of Schedule 3; and
- (b) in respect of a pre-export service either-
 - (i) the fee set out in the third column of Schedule 4; or
 - (ii) if the sum total of fees in respect of any services under this Order for which he or she has become liable during the financial year in which his or her application is made exceeds £250, the fee set out in the second column of Schedule 4.

(3) In this article, "small exporter" ("*allforiwr bach*")

exporter") yw person, yn y flwyddyn ariannol pan wneir y cais-

- (a) nad yw'n berson trethadwy at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994(1); neu
- (b) nad yw'n cyflenwi'n drethadwy blanhigion, cynhyrchion planhigion, hadau, pridd neu beiriannau amaethyddol at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994; neu
- (c) na wnaeth allforio yn y flwyddyn ariannol flaenorol nwyddau a thystysgrif gyda hwy yr oedd cyfanswm eu gwerth yn £5,000 neu fwy.

Tramgwyddau

6.-(1) Mae person yn euog o dramgwydd os yw'r person, at ddibenion peri bod tystysgrif yn cael ei dyroddi o dan y Gorchymyn hwn-

- (a) yn gwneud datganiad y mae'n gwybod ei fod yn anwir mewn manylyn perthnasol;
- (b) yn ddi-hid yn gwneud datganiad sy'n anwir mewn manylyn perthnasol; neu
- (c) yn fwriadol yn methu â datgelu unrhyw wybodaeth berthnasol.

(2) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2)

27 Mehefin 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

means a person who, in the financial year in which his or her application is made-

- (a) is not a taxable person for the purposes of the Value Added Tax Act 1994(1); or
- (b) makes no taxable supply of plants, plant products, seeds, soil or agricultural machinery for the purposes of the Value Added Tax Act 1994; or
- (c) did not export in the previous financial year goods accompanied by a certificate the total value of which was £5,000 or more.

Offences

6.-(1) A person is guilty of an offence if, for the purposes of procuring the issue of a certificate under this Order, the person-

- (a) makes a statement which he or she knows to be false in a material particular;
- (b) recklessly makes a statement which is false in a material particular; or
- (c) intentionally fails to disclose any material information.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(2)

27 June 2006

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1994 p.23.

(2) 1998 p.38.

(1) 1994 c.23.

(2) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Erthygl 2

FFURF AR DYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL

1 Enw a chyfeiriad yr allforiwr	TYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOLRhif [EC/ / /]	
3 Yr enw a'r chyfeiriad a nodwyd ar gyfer y traddodai	4 Corff Diogelu Planhigion o	
	i Gorff neu Gyrff Diogelu Planhigion o	
6 Y dull o gludo a nodwyd	5 Tarddle	
7 Y pwynt mynediad a nodwyd		
8 Marciau amlwg: nifer a disgrifiad; enw'r cynnyrch; enw botanegol y planhigion	9 Y swm a nodwyd	
10 Hyn sydd i ardystio bod y planhigion neu gynhyrchion planhigion a ddisgrifir uchod -wedi cael eu harolygu yn unol â gweithdrefnau priodol, a -yn cael eu hystyried yn rhydd rhag plâu cwarantîn, a bron yn rhydd rhag plâu niweidiol eraill; ac ystyrir eu bod -yn cydymffurfio â rheoliadau ffytoiechydol cyfredoly wlad sy'n mewnforio.		
11 Datganiad ychwanegol		
TRINIAETH DDIHEIGIO A/NEU DDIHEINTIO	Man y dyroddi:	
12 Y driniaeth		
13 Cemegolyn (cynhwysyn actif)	14 Hyd y cyfnod a'r Tymheredd	Dyddiad: Enw a llofnod y swyddog awdurdodedig:
15 Crynodiad	16 Dyddiad	Stamp y Corff:
17 Gwybodaeth ychwanegol		

SCHEDULE 1

Article 2

FORM OF A PHYTOSANITARY CERTIFICATE

1 Name and address of exporter		2 PHYTOSANITARY CERTIFICATE No.[EC/ / /]	
3 Declared name and address of consignee		4 Plant Protection Organisation of to Plant Protection Organisation(s) of	
6 Declared means of conveyance		5 Place of origin	
7 Declared point of entry			
8 Distinguishing marks: number and description; name of produce; botanical name of plants		9 Quantity declared	
10 This is to certify that the plants or plant products described above -have been inspected according to appropriate procedures, and -are considered to be free from quarantine pests, and practically free from other injurious pests; and that they -are considered to conform with the current phytosanitary regulations of the importing country.			
11 Additional declaration			
DISINFESTATION AND/OR DISINFECTION TREATMENT		Place of issue:	
12 Treatment		Date:	
13 Chemical (active ingredient)	14 Duration and Temperature	Name and signature of authorised officer:	Stamp of Organisation:
15 Concentration	16 Date		
17 Additional information			

ATODLEN 2

Erthygl 2

FFURF AR DYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL AR GYFER AILALLFORIO

1 Enw a chyfeiriad yr allforiwr	2 TYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL AR GYFER AILALLFORIO [Rhif EC/ / /]	
3 Yr enw a'r chyfeiriad a nodwyd ar gyfer y traddodai	4 Corff Diogelu Planhigion o i Gorff neu Gyrff Diogelu Planhigion o	
	5 Tarddle	
6 Y dull o gludo a nodwyd		
7 Y pwynt mynediad a nodwyd		
8 Marciau amlwg: nifer a disgrifiad; enw'r cynnyrch; enw botanegol y planhigion		9 Y swm a nodwyd
<p>10 Hyn sydd i ardystio - bod y planhigion neu gynhyrchion planhigion a ddisgrifir uchod wedi cael eu mewnfurio i (y wlad yr ailallforir iddi) o (tarddwlad) dan warchodaeth Tystysgrif Ffytoiechydol Rhif</p> <p>* <input type="checkbox"/> gwreiddiol <input type="checkbox"/> copi yr ardystiwyd ei fod yn gopi gwir sydd ynghlwm wrth y Dystysgrif hon, eu bod</p> <p>* <input type="checkbox"/> wedi cael eu pecynnu <input type="checkbox"/> wedi cael eu hailbecynnu <input type="checkbox"/> yn y cynwysyddion gwreiddiol <input type="checkbox"/> newydd, -ac ar sail</p> <p>* <input type="checkbox"/> y Dystysgrif Ffytoiechydol wreiddiol ac <input type="checkbox"/> arolygiad ychwanegol, ystyrir eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau Ffytoiechydol cyfredol y wlad sy'n mewnfurio, a -yn ystod cyfnod y storio yn (y wlad yr ailallforir iddi) nid yw'r llwyth wedi bod yn ddarostyngedig i risg heigio neu heintio.</p> <p>* Rhodder tic yn y blychau priodol.</p>		
11 Datganiad ychwanegol		
TRINIAETH DDIHEIGIO A/NEU DDIHEINTIO		Man y dyroddi:
12 Y driniaeth		Dyddiad:
13 Cemegolyn (cynhwysyn actif)	14 Hyd y cyfnod a'r tymheredd	Enw a llofnod y swyddog Stamp y Corff: awdurdodedig:
15 Crynodiad	16 Dyddiad	
17 Gwybodaeth ychwanegol		

SCHEDULE 2

Article 2

FORM OF A PHYTOSANITARY CERTIFICATE FOR RE-EXPORT

1 Name and address of exporter		2 PHYTOSANITARY CERTIFICATE FOR RE-EXPORT [No. EC/ / /]	
3 Declared name and address of consignee		4 Plant Protection Organisation of to Plant Protection Organisation(s) of	
6 Declared means of conveyance		5 Place of origin	
7 Declared point of entry			
8 Distinguishing marks: number and description; name of produce; botanical name of plants		9 Quantity declared	
10 This is to certify -that the plants or plant products described above were imported into (country of re-export) from (country of origin) covered by Phytosanitary Certificate No * <input type="checkbox"/> original <input type="checkbox"/> certified true copy of which is attached to this Certificate, that they are * <input type="checkbox"/> packed <input type="checkbox"/> repacked in <input type="checkbox"/> original <input type="checkbox"/> new containers, - that based on the * <input type="checkbox"/> original Phytosanitary Certificate and " additional inspection, they are considered to conform with the current Phytosanitary regulations of the importing country, and -that during storage in (country of re-export) the consignment has not been subjected to the risk of infestation or infection. * Insert tick in the appropriate boxes.			
11 Additional declaration			
DISINFESTATION AND/OR DISINFECTION TREATMENT		Place of issue:	
12 Treatment		Date:	
13 Chemical (active ingredient)	14 Duration and temperature authorised	Name and signature of authorised officer:	Stamp of Organisation
15 Concentration	16 Date		
17 Additional information			

ATODLEN 3

Erthyglau 3 a 5

Gwasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau	Ffi	Ffi(allforiwr bach)
(1) Gwasanaethau am lwythi heblaw gronynnau:		
Arolygiad a, phan fo angen, archwiliad mewn labordy	£20.25 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o £40.50	£10.13 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o £20.25
Archwiliad mewn labordy yn unig	£20.00	£10.00
Dyroddi tystysgrif pan nad oes angen arolygiad neu archwiliad mewn labordy	£5.00	£2.50
(2) Gwasanaethau ar gyfer llwythi o ronynnau:		
Monitro arolygiadau a gyflawnir gan berson awdurdodedig o dan erthygl 3(3), a phan fo angen hynny, archwiliad mewn labordy a gyflawnir gan swyddog awdurdodedig	£45.00	£22.50

ATODLEN 4

Erthygl 5

Gwasanaeth	Ffi	Ffi (allforiwr bach)
Gwasanaeth cyn-allforio	£20.25 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o £40.50	£10.13 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o £20.25

SCHEDULE 3

Articles 3 and 5

Services in respect of applications for certificates	Fee	Fee (small exporter)
(1) Services for consignments other than grain:		
Inspection and, where necessary, laboratory examination	£20.25 for each quarter hour or part thereof with a minimum fee of £40.50	£10.13 for each quarter hour or part thereof with a minimum fee of £20.25
Laboratory examination only	£20.00	£10.00
Issue of a certificate where no inspection or laboratory examination is required	£5.00	£2.50
(2) Services for consignments of grain:		
Monitoring of inspections carried out by a person authorised under article 3(3) and, where necessary, laboratory examination carried out by an authorised officer	£45.00	£22.50

SCHEDULE 4

Article 5

Service	Fee	Fee (small exporter)
Pre-export service	£ 20.25 for each quarter hour or part thereof with a minimum fee of £ 40.50	£ 10.13 for each quarter hour or part thereof with a minimum fee of £ 20.25

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1701 (Cy.163)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Gorchymyn Iechyd Planhigion
(Tystysgrifau Allforio) (Cymru)
2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1701 (W.163)

**PLANT HEALTH,
WALES**

The Plant Health (Export
Certification) (Wales) Order
2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W358/07/06

ON